WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2012

**Cyfeirnod y ddogfen: NWRSA2011**

**Fersiwn drafft yw'r ddogfen hon tra bod trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n helaeth.**

DRAFT

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon gan KPMG LLP ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett

DRAFT

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/sydd i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar KPMG na Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol** | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| Y dull archwilio | 5 |
| Cyflwyno adroddiadau | 8 |
| Ffi archwilio | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 10 |
| Tîm yr archwiliad ariannol | 12 |


DRAFT

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Rolau a chyfrifoldebau

**1.** Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2011-12.

**2.** O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol (Archwilwyr Penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.

**3.** Fel Archwilydd Penodedig, mae'n ofynnol i mi o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 archwilio ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod, gan fodloni fy hun bod y cyfrifon:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol; ac
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

**4.** Mae hefyd yn ofynnol i mi:

- fodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; ac
- ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**5.** Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Awdurdod gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**6.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.

**7.** Nodir gofynion allweddol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1.

**8.** Caiff dogfen ar wahân, sef *Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad*, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009.

DRAFT

# Y dull archwilio

## Y tîm archwilio

**9.** Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn Atodiad 2.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**10.** Caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion corff a archwilir o ran:

- dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau; ac
- ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

**11.** Byddaf yn:

- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol ar lefel system allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
- asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- adolygu'r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu ar ei waith, fel y bo'n briodol; ac yn
- datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu.

**12.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.

**13.** Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**14.** Trafodir Cynllun Archwilio Ariannol manylach gyda swyddogion.

DRAFT

## Risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

**15.** Mae Arddangosyn 1 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan yr Awdurdod a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodwyd yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Efallai y bydd angen newid yr archwiliad os bydd unrhyw risgiau newydd yn codi. Ni wneir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

### Arddangosyn 1: Crynodeb o'r prif risgiau archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| • O ystyried yr amgylchedd economaidd presennol, mae pwysau sylweddol ar yr Awdurdod i leihau costau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y blynyddoedd i ddod. Os nad yw gweithdrefnau cyllidebu a rhagweld yn gadarn, gellid tarfu ar gyflwyno gwasanaeth o ganlyniad i hyn a gallai atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei amcanion. | • Byddwn yn adolygu'r broses ar gyfer pennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac yn cynnal trafodaeth â rheolwyr ynghylch sut caiff perfformiad yn ôl y gyllideb ei fonitro.<br>Byddwn yn adolygu perfformiad yn ôl y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol a rhagolygon ar gyfer 2012-13. |
| • Mae'n ofynnol bod yr Awdurdod yn paratoi Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn Natganiadau Ariannol 2011-12, gan gyflwyno'r trefniadau lefel uchel ar gyfer atal a darganfod twyll a llygredd a chyflwyno safonau ymddygiad | • Byddwn yn adolygu'r datganiad Llywodraethu Blynyddol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arfer gorau a'i fod yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. |
| • Mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Os nad oes gweithdrefnau priodol ar waith, mae'n ofynnol i ni adrodd hyn yn ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn trafod y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod trefniadau priodol yn y maes hwn, gan gynnwys ystyried sut caiff gwerth am arian ei gyflawni mewn prosiectau arwyddocaol y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â nhw. |
| • Darparwyd Archwilwyr Mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2011/12 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gall canlyniadau archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn awgrymu risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn adolygu'r adroddiadau sy'n cael eu llunio gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac yn dilyn unrhyw feysydd i fyny a all gael effaith ar y datganiadau ariannol. |

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| • Er nad ydym wedi dod o hyd i unrhyw newidiadau sylweddol i'r systemau ariannol ar waith yn ystod y flwyddyn, gallai unrhyw wendidau yn yr amgylchedd rheoli arwain at gamddatganiad arwyddocaol yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn cofnodi ac yn profi fel y bo hynny'n briodol y gweithdrefnau sydd ar waith (fel cysoni cyfrifon) i sicrhau bod gwallau arwyddocaol yn cael eu darganfod. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| • Paratowyd y cyfrifon o dan yr IFRS am y tro cyntaf yn 2010/11. Adroddom am rywfaint o oedi wrth lunio set derfynol o gyfrifon cydymffurfiol. Fodd bynnag, gan mai dyma ail flwyddyn yr IFRS ac mae'r tîm cyllid wedi gweithio gyda'r ddau Awdurdod Tân arall yng Nghymru i lunio templed cyfrifon, dylai hyn sicrhau bod angen llai o ddiwygiadau.<br>• Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'n rhaid i'r Awdurdod gwblhau pecyn cyfuno i ategu cynhyrchu cyfrifon adnoddau'r sector cyhoeddus (Cyfrifon Llywodraeth Gyfan). | • Byddwn yn adolygu'r templed cyfrifon cyn ein hymweliad archwilio ac yn rhoi adborth ar ein sylwadau cychwynnol.<br>• Byddwn yn gweithio gyda'r tîm cyllid i sicrhau bod pecynnau archwilio LICC yn gyflawn a bod unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol i'r pecyn cyfuno fel rhan o'n gwaith archwilio yn cael eu gwneud yn ddi-oed. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| • Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn diffiniedig â buddion ar gyfer gweithwyr mewn lifrau a gweithwyr eraill. Mae'r cyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau hyn yn gymhleth, gan gynyddu'r risg o wall neu hepgoriad yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn adolygu cyfrifyddu a datgeliadau'r cynllun pensiwn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion perthnasol IRFS ac yn adolygu rhagdybiaethau actwaraidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ystodau rhagdybiaethau actwari KPMG.<br>• Profi'r cyfrifon terfynol yn seiliedig ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o'r datganiadau ariannol drafft. |

## Y defnydd o adnoddau

**16.** Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau sydd ar waith gan yr Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y corff a archwilir, fel y nodir yn ei ddatganiad llywodraethu a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'n cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion na chaiff eu cynnwys gan yr uchod, ac yr ystyriaf ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

# Cyflwyno adroddiadau

**17.** Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol perthnasol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiadau ffurfiol ar wahanol gamau o'r archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**18.** Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:

- cydberthnasau a all effeithio ar annibyniaeth yr archwilydd;
- gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad; a
- materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.

**19.** Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r broses archwilio yn yr Awdurdod, ac mae'n cadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill.

**20.** Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.

**21.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a, lle y bo angen, i'r Awdurdod Tân mewn modd amserol, cyn cwblhau'r archwiliad.

**22.** Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbwn arall, fel y cytunir arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn Arddangosyn 2.

DRAFT

### Arddangosyn 2: Cerrig milltir allweddol

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | Mehefin 2012 | Gorffennaf 2012 |
| Adroddiad (ISA 260) ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Awst 2012 | Medi 2012 |
| Barn Archwilio ar ddatganiadau ariannol 2011-12 | Medi 2012 | Medi 2012 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Rhagfyr 2012 | Ionawr 2013 |

# Ffi archwilio

**23.** Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2011-12 yw £32,900 (a TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Hydref 2012. Mae'r ffi hon yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n seiliedig ar y model ffioedd sy'n seiliedig ar sero ar gyfer archwiliadau ariannol.

**24.** Ar y cyfan, mae ffi archwiliad ariannol 2011-12 yn ostyngiad o 5 y cant ar yr elfen gyfatebol o gyfrifoldebau'r Archwilwyr Penodedig a gynhwyswyd fel rhan o'm ffi yn 2010-11, £34,650.

**25.** Yn ystod blynyddoedd blaenorol, ni fu unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.

**26.** Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu gymysgedd sgiliau penodol sydd ei angen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda'r Awdurdod cyn ymgymryd â'r gwaith.

DRAFT

# Atodiad 1

## Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa yn y [Cyngor/Awdurdod] |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau Archwilwyr Penodedig uchod ac yn Atodiad 1.<br>Gellir gweld y datganiad llawn o gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Statement_of_responsibilities_of_auditors_2010_Welsh.pdf |
| Penodi archwilwyr ac arweinwyr ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i arweinydd ymgysylltu. | Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. |
| Gwaith 'anstatudol' | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith 'anstatudol' y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith 'anstatudol' ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth. |
| Cyfyngiadau ar waith archwilio | Mae'n ofynnol i mi eich hysbysu am unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith rwy'n bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys cyfyngiadau a osodir gan reolwyr. | Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith rwy'n bwriadu ei gyflawni. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i Archwilwyr Penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir, yn seiliedig ar bolisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau;<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa yn y [Cyngor/Awdurdod] |
|---|---|---|
| **Ystyriaethau moesegol (parhad)** | | |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i arweinwyr ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer pob archwiliad, ac mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n mynd i'r afael â'r gwaith archwilio. |

DRAFT

# Atodiad 2

## Tîm yr archwiliad ariannol

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 029 2032 0500 | Anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Virginia Stevens | Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol | 029 2046 8009 | Virginia.stevens@kpmg.co.uk |
| Victoria de Zouche | Rheolwr yr Archwiliad | 029 2046 8062 | Victoria.dezouche@kpmg.co.uk |
| Rachel Williams | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 0121 232 3509 | Rachel.williams1@kpmg.co.uk |

DRAFT

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

DRAFT


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk